

C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag annog a chefnogi nodi syniadau a'u rhoi ar waith yn ymarferol yn eich sefydliad drwyddo draw. Bydd y syniadau cychwynnol yn dod oddi wrth bobl sy'n gweithio i'ch sefydliad yn bennaf, ond bydd disgwyl i chi edrych y tu hwnt i'r sefydliad wrth chwilio am gyfleoedd i nodi a datblygu syniadau, a fydd yn canolbwyntio ar

- gynhyrchion a/neu wasanaethau newydd
- gwelliannau i gynhyrchion a/neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli
- gwelliannau i arferion, gweithdrefnau, systemau, ffyrdd o weithio ac ati sydd eisoes yn bodoli yn y sefydliad drwyddo draw neu rai cwsmeriaid neu gyflenwyr.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** a **C2. Annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb** yng nghyfesurys gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth annog arloesedd yn eich sefydliad. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Darparu adborth
- Arweinyddiaeth
- Meddwl yn strategol
- Datrys problemau
- Ysbrydoli
- Meddwl yn greadigol
- Cymell
- Dadansoddi
- Gwneud penderfyniadau
- Rhwydweithio
- Monitro

- Cynnwys pobl eraill
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Adrodd
- Gwerthuso
- Rheoli risg
- Adolygu
- Rheoli gwybodaeth
- Dysgu
- Myfyrio

C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi'r dull(iau) o ymdrin ag arloesedd a lefel arloesedd yn eich sefydliad, ac adolygu hyn o bryd i'w gilydd.
2. Sicrhau bod gan y sefydliad strategaeth benodol ynglyn ag arloesedd a'i bod yn addas i weledigaeth, gwerthoedd, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad.
3. Cyfleu'r strategaeth arloesedd yn y sefydliad drwyddo draw ac i garfanau eraill perthnasol.
4. Cymell pobl yn y sefydliad drwyddo draw i nodi syniadau ar gyfer cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd a gwelliannau a ffynonellau posibl eraill o syniadau, a'u hannog i rannu'r wybodaeth hon.
5. Ymateb yn frwdfrydig i syniadau a darparu adborth adeiladol i'r rhai sy'n rhoi cychwyn iddynt.
6. Sicrhau bod adnoddau, yn enwedig amser, ar gael yn y sefydliad drwyddo draw ar gyfer cynhyrchu syniadau i gychwyn, eu datblygu ymhellach a'u rhoi ar brawf, a rhoi cymorth i gael gwared ar unrhyw rwystrau a nodir.
7. Nodi a dilyn trywydd cyfleoedd i'ch sefydliad weithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr allanol a/neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau.
8. Sefydlu diwylliant yn y sefydliad drwyddo draw sy'n annog pobl i gymryd risgiau derbyniol wrth ddilyn trywydd arloesedd ac i wneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.
9. Gwerthuso achosion busnes a chynlluniau busnes i roi syniadau ar waith yn ymarferol, a chymeradwyo'r rhai sy'n ymddangos yn ddichonadwy a monitro ac adolygu eu cynnydd.
10. Sefydlu systemau i fesur arloesedd o fewn y sefydliad a darparu gwybodaeth am berfformiad cyfundrefnol i garfanau perthnasol.
11. Annog rhannu gwybodaeth yn y sefydliad drwyddo draw am faterion sy'n ymwneud â chreadigrwydd ac arloesi.
12. Sicrhau, yn y sefydliad drwyddo draw, bod dechreuwyr a datblygwyr unrhyw syniadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn derbyn cydnabyddiaeth am eu cyflawniad.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
2. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.
3. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
4. Byddwch yn ceisio cyfleoedd busnes newydd ac yn gweithredu arnynt.
5. Byddwch yn dangos eich bod yn chwilfrydig i ddysgu pethau newydd a rhoi cynnig arnynt.
6. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
7. Byddwch yn cydbwysu risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
8. Byddwch yn rhagweld senarios tebygol y dyfodol ar sail dadansoddiad realistig o dueddiadau a datblygiadau.
9. Byddwch yn mynd ati yn gyson i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau .
10. Byddwch yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.

C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Manteision arloesedd i'r sefydliad, ei gwsmeriaid a budd-ddeiliaid eraill
2. Y gwahaniaeth rhwng creadigrwydd ac arloesedd
3. Sut i nodi ac adolygu'r dull(iau) o ymdrin ag arloesedd yn eich sefydliad a lefel yr arloesedd ynddo, gan gynnwys unrhyw gryfderau y gellir adeiladu arnynt, unrhyw wendidau y mae angen ymdrin â nhw ac unrhyw rwystrau i arloesedd y mae angen cael gwared arnynt
4. Sut i ddatblygu strategaeth gyfundrefnol ar gyfer arloesedd, yr hyn y dylai ei gwmpasu a sut i'w chyfleu yn y sefydliad drwyddo draw
5. Sut i ddethol a defnyddio gwahanol ddulliau i gymell ac annog pobl yn y sefydliad drwyddo draw i gynhyrchu, datblygu a rhannu syniadau
6. Y gwahanol ffynonellau posibl o syniadau ar gyfer cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd a gwelliannau
7. Dulliau ar gyfer nodi a dilyn trywydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr allanol a/neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau.
8. Pwysigrwydd cyfathrebu yn y broses greadigol a sut i annog cyfathrebu yn eich sefydliad drwyddo draw
9. Pwysigrwydd cynllunio wrth arloesi
10. Y rwystrau posibl i arloesedd a ph'un a gellir cael gwared/sut gellir cael gwared arnynt
11. Cyfnodau allweddol y broses greadigol
12. Cyfnodau allweddol y broses arloesi
13. Sut i ddysgu o gamgymeriadau a dulliau o wneud hyn yn rhan annatod o ddiwylliant sefydliad
14. Sut i adnabod a rheoli risg wrth arloesi ac annog pobl eraill i gymryd risgiau derbyniol wrth fynd ar drywydd arloesedd
15. Sut i ddarparu adborth adeiladol ar syniadau i dimau ac unigolion
16. Yr amrywiaeth o ffyrdd o ddatblygu a rhoi syniadau cychwynnol ar brawf
17. Sut i nodi a gweithio gydag arbenigwyr allanol ac arbenigwyr a/neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau a allai arwain at arloesedd.
18. Yr adnoddau a'r gefnogaeth sy'n ofynnol ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd, yn arbennig amser
19. Sut i ddiogelu syniadau ac arloesedd

20. Sut i werthuso achosion busnes a chynlluniau busnes ar gyfer rhoi syniadau ar waith yn ymarferol a chymeradwyo'r rhai sy'n ymddangos yn ddichonadwy
21. Sut i adnabod cyflawniadau dechreuwyr/datblygwyr syniadau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus
22. Sut i sefydlu systemau i fesur arloesedd ac adrodd arno o fewn y sefydliad a darparu gwybodaeth am berfformiad cyfundrefnol i garfanau perthnasol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y sector(au) mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo/ynddynt
2. Cyfleoedd posibl i weithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr allanol a/neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gynhyrchu a datblygu syniadau.
3. Ffynonellau gwybodaeth am arloesedd yn eich sector(au)
4. Datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol, yn rhai cyfredol ac yn rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector(au) ac mewn sectorau cysylltiedig

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Strategaeth benodol y sefydliad sy'n ymwneud ag arloesedd
2. Y dull(iau) o ymdrin ag arloesedd, a lefel arloesedd, yn eich sefydliad
3. Rôl arloesedd yn niwylliant eich sefydliad a sut i adeiladu ar hyn
4. Canllawiau a gweithdrefnau cyfundrefnol ar gyfer datblygu a gweithredu syniadau
5. Anghenion eich cwsmeriaid
6. Gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad
7. Budd-ddeiliaid allweddol eich sefydliad ac unrhyw garfanau eraill perthnasol sydd â diddordeb mewn arloesedd
8. Systemau i fesur arloesedd yn eich sefydliad